# COPA 1

## GWYBODAETH I ATHRAWON



CRONFA GYMUNEDOL COMMUNITY FUND

PARC CENEDLAETHOL ERYRI
SNOWDONIA NATIONAL PARK

Eco-Sgolion
Eco-Schools



Annwyl Athro,

Mae'n bleser gennym wahodd eich ysgol i gymryd rhan mewn cystadleuaeth sy'n anelu at gefnogi ymgyrch Yr Wyddfa Ddi-blastig yr Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Mae'r fenter hon yn ceisio annog myfyrwyr i gyfrannu at ddyfodol cynaliadwy tra'n cyd-fynd â Phedwar Diben y Cwricwlwm i Gymru.

Ym Mharc Cenedlaethol Eryri, rydym yn deall pwysigrwydd meithrin ymwybyddiaeth amgylcheddol ymhlith meddyliau ifanc. Mae ein cystadleuaeth yn rhoi cyfle gwych i fyfyrwyr gymryd rhan weithredol yn y frwydr yn erbyn llygredd plastig a chael effaith gadarnhaol ar eu cymunedau lleol.

Drwy ymuno â'r gystadleuaeth hon, gall eich ysgol rymuso myfyrwyr i ddatblygu dealltwriaeth ddyfnach o gynaliadwyedd a'i arwyddocâd yn ein byd ni heddiw. Trwy weithgareddau a phrosiectau difyr, bydd disgyblion yn cael y cyfle i archwilio datrysiadau arloesol, codi ymwybyddiaeth, ac ysbrydoli eraill i fabwysiadu arferion ecogyfeillgar. Mae nifer o'r gweithgareddau sydd yn y pecynnau addysg yn cyd-fynd â meithrin sgiliau ar gyfer Bagloriaeth Cymru.

Gall disgyblion hefyd ymgorffori eu gwaith yn eich cynllun gweithredu Eco-Sgolion a'i ddefnyddio fel tystiolaeth tuag at ennill achrediad Baner Werdd a gydnabyddir yn rhyngwladol gan Eco-Sgolion.

# Cysylltiadau i'r Cwricwlwm i Gymru

Mae cystadleuaeth COPA1 a'r gwaith paratoi i gymryd rhan yn y digwyddiad, yn galluogi myfyrwyr i fynd i'r afael â'r 'Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig' a'u harchwilio, yn y Meysydd dysgu a phrofiad canlynol:

## Gwyddoniaeth a Thechnoleg

1. **Mae meddylfryd dylunio a pheirianneg yn cynnig ffyrdd technegol a chreadigol i ddiwallu anghenion a dymuniadau cymdeithas.**

## Iechyd a Lles

2. **Mae'r ffordd rydym yn gwneud penderfyniadau yn effeithio ar ansawdd ein bywydau ni a bywydau eraill.**

## Y Dyniaethau

3. **Mae ein byd naturiol yn amrywiol a deinamig, wedi'i ddylanwadu gan brosesau a gweithredoedd dynol.**

Mae Pedwar Diben Cwricwlwm i Gymru yn pwysleisio datblygiad cyfannol myfyrwyr, gan eu meithrin i ddod yn ddinasyddion moesegol, gwybodus a chyfrifol. Trwy gymryd rhan yn y gystadleuaeth hon, bydd myfyrwyr nid yn unig yn gwella eu gwybodaeth a'u sgiliau ond hefyd yn cyfrannu at y nod ehangach o greu dyfodol gwyrddach a mwy cynaliadwy.

Rydym yn eich annog i fachu'r cyfle i ysbrydoli eich myfyrwyr ac arddangos eu creadigrwydd, meddwl beirniadol, a galluoedd datrys problemau. Gyda'n gilydd, gallwn wneud gwahaniaeth a gwreiddio ymdeimlad o stiwardiaeth amgylcheddol yn y genhedlaeth nesaf.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau neu os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch, mae croeso i chi gysylltu â ni. Edrychwn ymlaen at gyfranogiad eich ysgol yn y gystadleuaeth gyffrous hon a'r effaith gadarnhaol y bydd yn ei chael ar y Parc Cenedlaethol a'r gymuned ehangach.

# Cwestiynau Cyffredin

## Beth yw COPA1?

Cystadleuaeth a digwyddiad yw COPA1 sy'n gwahodd disgyblion uwchradd a thrydyddol o bob rhan o ogledd Cymru i ddatrys yr argyfwng llygredd plastig untro ar Yr Wyddfa.

## Pryd a ble mae'r digwyddiad?

Mae'r digwyddiad ar Yr Wyddfa, ar Fedi 24ain, 2024 gan gynnwys taith ar y trên i'r copa!

## A fydd athrawon yn cael eu talu?

Bydd ysgolion yn cael eu had-dalu am yr amser a dreulir yn y digwyddiad gan yr athrawon.

## Beth sy'n digwydd yn y digwyddiad?

Bydd grwpiau o ddisgyblion ar y rhestr fer i fynychu yn cael cyfle i gyflwyno eu syniadau a'u datblygu mewn gweithdai. Byddant yn mynd ar daith i'r copa (gydag athrawon) ar y trên ac yna'n mynychu seremoni wobrwyo. Bydd angen disgyblion yn ardal Llanberis am 8.30yb a daw'r diwrnod i ben tua 5yp.

## Beth sydd angen i mi ei wneud fel athro?

Bydd angen i'r athro ddosbarthu'r pecyn addysg disgyblion a'r adnoddau. Mae'r disgyblion yn rhydd i wneud yr ymarfer a chreu'r fideos cynnig / cyflwyno naill ai yn y dosbarth dan arweiniad yr athrawon neu yn ystod eu hamser rhydd.

## Sut mae disgyblion yn cyflwyno eu syniadau?

Bydd disgyblion yn cyflwyno eu syniadau trwy gyfrwng y ddolen hon:-

**Cyflwyniad COPA1.**[1]

**PWYSIG:** Fel rhan o'ch fideo, rhowch y wybodaeth ganlynol i ni pan fyddwch chi'n cyflwyno'ch hun:

- Enwau a chyfenwau aelodau eich grŵp
- Eich blwyddyn ysgol
- Eich ysgol

## Beth yw'r amserlen?

Bydd angen cyflwyno'r cynigion / cyflwyniadau fideo erbyn Mai 30, 2024. Bydd grwpiau ar y rhestr fer (3-4 disgybl ym mhob grŵp) yn cael eu cyhoeddi erbyn Mehefin 2024.

## Mae £1,500 o arian gwobr ar gael – sut fydd y myfyrwyr yn gallu ei wario?

Bydd APCE yn cynhyrchu archebion prynu ar gyfer gwariant prosiect y grwpiau sy'n ennill ar ddiwrnod y digwyddiad ac yn cefnogi myfyrwyr ar eu taith prosiect (ynghyd â hwyluswyr a fydd yn eu helpu i ddatblygu eu syniadau)

[1] https://shorturl.at/dhnrT